**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A MENTER**
**19 GORFFENNAF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gymunedol, Castle Heights, y Fflint, CH6 5NG ddydd Mercher, 19 Gorffennaf 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ron Hampson (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Mike Reece a Paul Shotton

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Rosetta Dolphin a George Hardcastle. Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd; Prif Swyddog (Cymuned a Menter)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai, Rheolwr Asedau Tai, Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio); Rheolwr Budd-daliadau; a Syrfëwr Contractau.

**ARSYLWYR:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter a Swyddog y Pwyllgor.

## 7. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 8. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2017.

Cywirdeb

Dylid newid enw'r Cynghorydd Dave Mackie dan 'Cadeirydd' i'r Cynghorydd Ian Dunbar.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 9. ADRODDIAD CANLYNIADAU CYNLLUN GWELLA 2016/17

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddariad rheolaidd i ystyried cynnydd ar gyfer cyflawni'r effeithiau yn y Cynllun Gwella 2016/17, gan ganolbwyntio ar y meysydd tan berfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhoddodd y Rheolwr Budd-daliadau ddiweddariad ar aelwydydd digartref, lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis. Adroddodd fod ffigur chwarter 4 yn is na gweddill y flwyddyn oherwydd bod rhai canlyniadau wedi cario drosodd ond ar draws

y flwyddyn, roedd 89% o achosion wedi eu hatal neu eu lliniaru, a oedd wedi rhagori ar y targed 87%.

Dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau fod brysbennu wedi trin 3,362 o achosion a bod 63% wedi'u rheoli ar y pwynt cyswllt cyntaf neu drwy dimau ehangach yn rhyddhau amser swyddog digartrefedd ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Roedd y tîm Hawliau Lles sydd wedi bod yn seiliedig yn y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ers mis Medi 2016 wedi cynhyrchu incwm budd-daliadau ychwanegol o £1,579,380 a oedd yn llai na'r llynedd ond roedd wedi rhagori ar y targed ar gyfer y cyfnod.

Dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau fod y ffigurau ar gyfer prosesu hawliau newydd ar gyfer y flwyddyn wedi dod ychydig o dan y targed 20 diwrnod oherwydd bod perfformiad o dan y targed ar gyfer chwarter 1 a chwarter 2, fodd bynnag, roedd y ffigurau ar gyfer chwarter 3 a chwarter 4 yn dangos perfformiad gwell ac roeddent o fewn y targed. O ran prosesu newid amgylchiadau, roedd y Gwasanaeth wedi perfformio o fewn y targed ar gyfer y flwyddyn.

Dywedodd y Syrfëwr Contractau fod pob contract wedi'i ddarparu ar amser ac wedi rhagori ar dargedau ar wahân i'r canlynol:

- Roedd y contract amlen (gwaith to) wedi'i ohirio oherwydd gwaith gan Scottish Power i ddisodli ceblau trydanol y prif gyflenwad, fodd bynnag, mae hyn wedi cael sylw bellach ac mae'r contract "ar y trywydd iawn".

- Cafodd Rhaglen Off Gas yn Nhreuddyn a Phenyffordd ei gwblhau y llynedd, ond oherwydd prisiau olew isel roedd nifer fach wedi manteisio, fodd bynnag, bu cynnydd o ran galw am foeleri nwy gan fod pris olew wedi cynyddu.

Mynegodd Cynghorydd Paul Shotton werthfawrogiad am y cynnydd a gyflawnwyd o ran Tai hyd yma. Cyfeiriodd at ddatblygiad Red Hall a gofynnodd a oedd dyddiad cwblhau wedi'i benderfynu. Eglurodd Cynghorydd Bernie Attridge ei bod yn cael ei rhagweld y byddai eiddo yn cael eu dyrannu rhwng mis Awst/Medi 2017.

Gofynnodd Cynghorydd Ron Davies fod yr Aelod Lleol yn cael gwybod pan fyddai unrhyw waith cyfalaf mawr yn cael ei wneud yn eu Ward. Dywedodd y syrfëwr Contractau y dylai hyn fod yn digwydd eisoes a byddai'n edrych i mewn i hyn i wneud yn siŵr ei fod yn parhau yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) at y benthyciadau adnewyddu cartrefi a oedd ar gael i atgyweirio/gwella anheddau sector preifat drwy raglen gyfalaf y Cyngor a Benthyciadau Gwella Cartrefi cenedlaethol Llywodraeth Cymru (LlC). Dywedodd mai nifer fach oedd wedi manteisio ar y ddau fenthyciad ac roedd yn cael eu hadolygu gyda LlC i ystyried newid radical ar sut roedd benthyciadau cartrefi yn cael eu darparu.

Dywedodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson nad oedd y cynlluniau benthyciadau cartrefi yn cael eu hysbysebu'n ddigonol a bod angen codi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Gwnaeth y Rheolwr Gwasanaeth gydnabod y

pwynt a wnaed a dywedodd bod angen gwneud mwy i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd ac i annog perchnogion cartrefi ar incymau isel i fanteisio ar y cynlluniau sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r adroddiad.

## 10. SICRWYDD ADEILADAU UCHEL IAWN Y FFLINT

Rhoddodd y Rheolwr Asedau Tai ddiweddariad ar lafar i roi sicrwydd i'r Pwyllgor a rhannu gwybodaeth am fesurau diogelwch tân mewn eiddo uchel iawn yn y Fflint. Dosbarthodd gopïau o adroddiad a oedd wedi'i gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar 18 Gorffennaf, ar y mesurau a gymerwyd ac a gynlluniwyd o ran diogelwch tân eiddo uchel iawn Cyngor Sir y Fflint.

Rhoddodd y Rheolwr Asedau Tai drosolwg o'r mesurau sydd ar waith i amddiffyn a sicrhau diogelwch tenantiaid pe bai tân ac adroddodd ar y prif bwyntiau sy'n ymwneud â'r chwe maes canlynol:

- mesurau amddiffyn adeiladau sydd ar waith
- trefn arolygu
- mesurau sicrwydd a chyfathrebu
- inswleiddiad waliau allanol wedi'u ffitio i eiddo arall
- Archwiliad Diogelwch Tân
- camau pellach i gael eu cymryd wrth symud ymlaen

Gwnaeth y Rheolwr Asedau Tai gyfeirio at gynnal asesiadau risg tân rheoleiddiol blynyddol neu pryd bynnag mae digwyddiad arwyddocaol neu ailwampio yn digwydd, gosod systemau chwistrellu, drysau sy'n amddiffyn rhag tân, synwyryddion mwg a gwres, a chynlluniau personol gadael mewn argyfwng (PEEP). Adroddodd hefyd ar yr ymchwil a'r gwaith a wnaed gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Sir y Fflint a'r ganolfan hyfforddiant Gwasanaethau Tân ac Achub yng nghanolbarth Lloegr.

Eglurodd y Rheolwr Asedau Tai fod y mesurau sicrwydd a chyfathrebu a roddwyd ar waith wedi'u croesawu gan denantiaid a byddent yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gan ymateb i'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd, roedd adran Cwestiynau Cyffredin wedi'i datblygu ar wefan Cyngor Sir y Fflint i fynd i'r afael â'r ymholiadau lleol a chenedlaethol parhaus a'r pryderon a geir.

Dywedodd y Cynghorydd Bernie Attridge fod yr Awdurdod, gyda 3 awdurdod lleol arall, wedi cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i gyflwyno tystiolaeth ar y mesurau diogelwch tân sydd ar waith ar eiddo uchel iawn yn Sir y Fflint, ac i awgrymu unrhyw welliannau a ellid eu gwneud wrth symud ymlaen. Dywedodd fod canlyniad y cyfarfod yn gadarnhaol ac nid oedd materion wedi codi ar y dystiolaeth a adolygwyd.

Mynegodd Aelodau eu gwerthfawrogiad i'r Aelod Cabinet a swyddogion am y camau gweithredu prydlon a gymerwyd gan yr Awdurdod i roi sicrwydd i denantiaid a phreswylwyr lleol yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell, Llundain, ym mis Mehefin 2017.

Diolchodd y Cynghorydd Ian Dunbar i'r Rheolwr Asedau Tai am ddiweddariad llawn gwybodaeth a manwl. Soniodd am nifer yr eiddo isel yn Sir y Fflint a gofynnodd am sicrwydd fod mesurau amddiffyn ar waith ar gyfer yr eiddo hyn. Amlinellodd y Rheolwr Asedau Tai y mesurau a gymerwyd i amddiffyn tenantiaid mewn adeiladau isel a chyfeiriodd at gynnal asesiadau risg tân rheolaidd, profi a gweithdrefnau arolygu.

Roedd cynllun gweithredu ar wahân ar gyfer eiddo isel yn Sir y Fflint wedi'i gwblhau a byddai'n cael ei adolygu'n flynyddol.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Reece a oedd ystyriaeth yn cael ei roi i osod grisiau awyr agored fel dull ychwanegol o ddianc rhag tân. Dywedodd y Cynghorydd Attridge fod hyn yn cael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 11. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried. Gofynnodd i Aelodau ystyried yr awgrym i gynnal gweithdy byr ar y Fargen Twf Economaidd cyn dechrau cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Medi 2017 a chytunodd y Pwyllgor ar hyn. Cytunwyd hefyd cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor yn ystod mis Hydref 2017 i ystyried y Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol arfaethedig a'r Cynllun Busnes arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 12. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.50 am)

…………………………
**Cadeirydd**